# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Casnewydd

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

# Cylchlythyr

Rhifyn 005
Tachwedd 2023



Mae'r Cyngor wrthi'n cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) ar gyfer Casnewydd. Bydd y CDLIN yn nodi fframwaith defnydd tir 15 mlynedd ar gyfer y ddinas.

## Beth sy'n digwydd nawr?

### Ymgynghoriad: 25 Hydref 2023 – 20 Rhagfyr 2023

Bydd y CDLlN yn llywio datblygiad y ddinas dros y 15 mlynedd nesaf, a dyma'ch cyfle i gymryd rhan.

Gwahoddir rhai sydd â diddordeb i wneud sylwadau ar y cynigion a nodir yn y Cynllun Cyn-adneuo fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.

**Y Strategaeth a Ffefrir (Cynllun Cyn Adneuo)**




Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn nodi'r materion allweddol y mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â hwy; y Weledigaeth ar gyfer y cynllun a'r amcanion ategol; y strategaeth dwf arfaethedig ar gyfer tai a thir cyflogaeth; y dull gofodol o ddarparu datblygiadau newydd; Safleoedd Allweddol y bwriedir eu datblygu; polisïau cynllunio strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth y cynllun.

Yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir mae cyfres o adroddiadau technegol ategol a thystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ei pharatoi.

**Arfarniad Cynaladwyedd Integredig Cychwynnol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Mae angen Arfarniad Cynaladwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN).

Mae'r ACI yn gwerthuso'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol a negyddol yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn asesiad o effeithiau posibl safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig.

Mae Adroddiad ACI Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio ACI ar gael ar gyfer sylwadau a gellir eu gweld ochr yn ochr â'r Hoff Strategaeth.



## Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol




Cynhaliwyd 'Galwad am Safleoedd Ymgeisiol' yn 2021.

Yn dilyn hyn, mae'r Cyngor wedi paratoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol sy'n gofnod o'r safleoedd a gyflwynwyd i'r Cyngor.

**Nid yw'r Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cynnig dyraniadau safle ond dim ond cofnod o dir a gyflwynwyd i'r Cyngor i'w ystyried ydyw ac mae'n darparu canlyniadau ymarfer hidlo cychwynnol.**

## Gweld Dogfennau a Chyflwyno Sylwadau a Safleoedd Ymgeisiol

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gallwch weld y dogfennau ar gyfer ymgynghori, tystiolaeth ategol a gweld y ffurflen ymateb:

- **ar-lein:** www.newport.gov.uk/RLDP

- **Yn bersonol:** Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, NP20 1PA
  Mawrth - Gwener 9.00 yb i 5.30 yp; Sadwrn 9.00 yb to 4yp

- **Yn bersonol:** yng Nghyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, NP20 4UR
  TRWY APWYNTIAD YN UNIG Llun - Gwener 9.30 am i 4.30 pm

I drefnu apwyntiad i'w weld yn y Ganolfan Ddinesig, neu gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau drwy:

- E-bostio: **cyfeiriad e-bost: LDP.Consultation@newport.gov.uk**

- Lythyr: **Polisi Cynllunio, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.**

**Dylai ymatebion i'r Ymgynghoriad gyraedd y Cyngor erbyn Mercher 20 Rhagfyr 2023.**





## Cyflwyno Safle Ymgeisiol Ychwanegol

Fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir gellir cyflwyno cynigion Safleoedd Ymgeisiol ychwanegol i'w hystyried, fel y nodir yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu (Mawrth 2020).

Dylid gwneud cyflwyniadau gan ddefnyddio'r Ffurflen Safleoedd Ymgeisiol, y Nodyn Canllaw a'r Fethodoleg Asesu.

Sylwch fod Model Hyfywedd Datblygwr (MHD) newydd ar gael i gyd-fynd â chyflwyniadau Safleoedd Ymgeisiol.

**Mae'n bwysig nodi nad yw cyflwyno Safle Ymgeisiol yn cynrychioli ymrwymiad ar ran y Cyngor i symud safleoedd ymlaen i'r CDLlN.**



## Digwyddiad Ymgysylltu â'r Gymuned

Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Bydd Cymorth Cynllunio Cymru hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol ar ran y Cyngor, ar-lein ac yn bersonol.

Bydd y sesiynau'n cynnwys trosolwg o'r hyn y mae'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir yn ei gynnwys ac yn darparu fforwm rhyngweithiol i fynychwyr drafod y cynigion a rhannu eu meddyliau. Mae digwyddiadau i ddod fel a ganlyn:

> **Tŷ-du:** Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023 (6.30yp – 8.30yp),
> Newport Fugitives Athletic Club, Heol High Cross, Casnewydd, NG10 9AE

Byddem yn croesawu eich presenoldeb yn unrhyw un o'r digwyddiadau hyn i roi eich barn i ni ar yr ymgynghoriad uchod.

I gofrestru ar gyfer unrhyw un o'r digwyddiadau, cysylltwch â Mark Jones ar **Mark@planningaidwales.org.uk** neu ffoniwch **02921 660 904.**





## Sesiynau Galw Heibio

Bydd sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb ar gael i chi gwrdd ag aelodau o'r Tîm Polisi Cynllunio lle gallwch drafod unrhyw gwestiynau sydd gennych am y Strategaeth a Ffefrir.

Bydd y sesiynau'n rhedeg ar ddydd Iau rhwng 10.00yb a 4.00yp **(nid oes angen apwyntiad).**

Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig NP20 4UR

- 14 Rhagfyr 2023,



## Ble'r ydym yn y broses?








## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Paratoi Cynllun Adneuo

Yn dilyn ymlaen o'r Strategaeth a Ffefrir, y cam nesaf fydd y Cynllun Adnau (Cynllun Datblygu Lleol drafft llawn).

Rydym yn gweithio tuag at ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau ddiwedd 2024.



## Cymerwch ran

Bydd datblygu cynllun newydd yn effeithio ar bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd, felly mae'n bwysig bod pawb yn gallu cymryd rhan a dweud eu dweud.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i gael gwybod am gamau cynnydd ac ymgysylltu'r cynllun, gwnewch hynny drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu drwy un o'r dulliau cyswllt a nodir isod.

## Manylion Cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech siarad ag aelod o'r Tîm Polisi Cynllunio, cysylltwch â ni ar:


✉ **LDP.consultation@newport.gov.uk,**

✆ **01633 656656 neu**

✍ **Polisi Cynllunio, Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.**

**www.newport.gov.uk/cdli**


